WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Dyddiad cyhoeddi: 08 Mehefin 2018

Cwynion am Gynghorau Tref neu Gymuned

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth isod dyddiedig 01 Mehefin 2018 pan ofynnoch am wybodaeth ynglŷn â chwynion am Gynghorau Tref a Chymuned.

Er hwylustod, rwyf wedi cynnwys eich cwestiwn isod ac wedi amlinellu ein hymateb cyfatebol.

Sawl cwyn a dderbyniwyd gan Gomisiwn Archwilio Cymru hyd yn hyn ers 2013-14 oddi wrth unrhyw aelod o'r cyhoedd, eu bod wedi dioddef unrhyw:

1. **golled**
2. **caledi**
3. **anghyfiawnder**

am fod cyngor unrhyw dref neu gymuned wedi methu yn ei ddyletswydd statudol mewn perthynas â rheoli a llywodraethu ariannol?

Rydym wedi edrych ar ein cofnodion cwynion a'n gohebiaeth ac nid oes gennym wybodaeth a gofnodwyd sy'n cyd-fynd â'r disgrifiad hwn.

Er hynny, mae'r mathau o gwynion yr ydym yn ymchwilio iddynt fel arfer yn ymwneud â gwaith neu ymddygiad staff Swyddfa Archwilio Cymru neu wasanaethau a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru neu ei chontractwyr a darperir rhagor o wybodaeth yn ein taflen am sut i wneud cwyn sydd ar gael ar ein gwefan ar http://www.audit.wales/cy/gwneud-cwyn. Rydym hefyd yn ymdrin â gohebiaeth lle mae'r materion a godwyd yn berthnasol i waith archwilio'r Archwilydd Cyffredinol. Mae ein canllaw ar gyfer gohebyddion ar gael ar ein gwefan yn http://www.audit.wales/cy/codi-pryderon ac mae hyn yn esbonio'r gwaith y gallwn ei wneud o ran gohebiaeth.

Efallai yr hoffech gysylltu â'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru oherwydd efallai bod y math o gwyn a ddisgrifiwch yn eich cais uchod yn dod o fewn ei bwerau i ymchwilio. Mae gwybodaeth am yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus a'r hyn mae'n gallu ei wneud ar gael yn: https://www.ombwdsmon.cymru/

Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach, neu gwestiynau am sut yr wyf wedi ymdrin â'ch cais, mae pob croeso i chi gysylltu â fi.

Yn gywir,